25.03.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Dwy ddîfa yn mwynhau trysorau Ynys Môn

'Dos yn fawr neu dos adra!' - dyna'r slogan ar gyfer y bennod ddiweddara' o **Iaith ar Daith** lle mae'r gomedïwraig Kiri Pritchard-McLean yn mynd ar siwrnai i ddysgu Cymraeg gydag un o gymeriadau mwyaf lliwgar Cymru, Maggi Noggi.

Ac mae gan y ddwy lot fwy yn gyffredin na'r gwallt mawr, clustdlysau lliwgar a'r dillad glam - mae'r ddwy wrth eu boddau yn byw ar Ynys Môn.

Mae Kiri yn wyneb cyfarwydd iawn yn y sîn gomedi Prydeinig, ac yn westai cyson ar raglenni panel fel *Would I Lie to You?, Richard Osman's House of Games* a *Have I Got News for You*.

Cafodd hi ei magu ar Ynys Môn, ac ar ôl blynyddoedd o fyw yn Lloegr mae hi wedi symud yn ôl i fyw i'r ynys ac mae'n awyddus iawn i ddysgu Cymraeg.

"Rydw i hapusaf a mwyaf hamddenol pan dwi yng Nghymru," meddai Kiri. "Symudais i yn ôl i Gymru oherwydd dyna beth oedd y plan erioed, rili. Dylen i wedi rhannu hyn gyda fy nghariad pan ddechreuon ni fynd mas gyda'n gilydd! Ond pan oni eisiau dechrau teulu - dyma'r lle cyntaf, a'r unig le, mewn gwirionedd, ar y rhestr."

"Nawr dwi eisiau ffeindio hyder yn y Gymraeg. Mae gen i lot o hyder yn y Saesneg - gormod o hyder byddai rhai yn dweud!"

Yn ystod y gyfres hon, mae sawl un o'r selebs wedi gwireddu breuddwyd ond hefyd wedi wynebu'r pethau maen nhw wedi gweld yn heriol iawn wrth ddysgu'r iaith. Yn achos Kiri, mae hi eisiau bod yn ddoniol yn y Gymraeg.

"Mae'n bwysig imi deimlo'n 'funny'," meddai Kiri. "Dwi ddim yn teimlo'n 'funny' yn y Gymraeg. Fy mreuddwyd i yw gwneud stand-yp yn y Gymraeg."

A dyma Kiri yn cael ei chyfle - sesiwn stand-yp ar lwyfan y Wellman's yn Llangefni ar gyfer S4C Comedi. Ac fe fydd hen ffrind sy'n wyneb cyfarwydd iawn yn y gynulleidfa i'w hannog.

A chyngor Maggi i Kiri cyn iddi fentro i'r llwyfan - "dos yn fawr neu dos adra"!

Ond a fydd Kiri yn ymdopi gyda'i nerfau a gwireddu ei breuddwyd o berfformio stand-yp yn y Gymraeg? Bydd y cyfan yn cael ei ddatgelu ar **Iaith ar Daith**, nos Sul, 4 Ebrill ar S4C.

Yn ogystal â'r Wellman's yn Llangefni, mae Kiri a Maggi yn ymweld â sawl lle ar Ynys Môn gan gynnwys Traeth Coch, lle mae Kiri'n dysgu mwy am hanes Land Rover ac Ynys Llanddwyn.

Mae'r daith yn dod i ben ym Melin Llynnon, Llanddeusant lle mae'r ddwy yn mwynhau teisen figan a jin a thonic llwyr haeddiannol.

Daliwch i fyny â'r rhaglenni eraill yn y gyfres **Iaith ar Daith** gyda Steve Backshall ac Iolo Williams; yr actores Rakie Ayola a'i mentor Eiry Thomas; James Hook a Nigel Owens a Chris Coleman ac Owain Tudur Jones ar S4C Clic.

Iaith ar Daith
Nos Sul 4 Ebrill 8.00, S4C
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C

25.03.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Two divas enjoy the treasures of Anglesey

'Go big or go home!' – that's the motto for the latest episode of **Iaith ar Daith** (Welsh Road-trip) where comedian Kiri Pritchard-McLean goes on a journey to learn Welsh with one of Wales's most colourful characters, Maggi Noggi.

And the two have much more in common than the big hair, statement ear-rings and glamorous outfits – they both absolutely love living on Anglesey.

Kiri is a familiar face on the British comedy circuit and a regular guest on panel shows such as *Would I Lie to You?, Richard Osman's House of Games* and *Have I Got News for You*.

She was born and brought up on Anglesey, and after years of living in England she has moved back to live on the island and is very keen to learn Welsh.

"I am at my happiest and most relaxed when I'm in Wales," said Kiri. "I moved back to Wales because it was always the plan, really. I should have said that out loud to my boyfriend when we first got together! When I wanted to start a family, this was the first and only place on the list, really."

"Now, I want to find my confidence in Welsh. I'm very confident in English – too confident some might say!"

During this series, several of the celebrities have had their dreams come true but have also faced the things that they have found most challenging about learning Welsh. In Kiri's case – she wants to be funny in Welsh.

"It's important for me to feel funny," said Kiri. "I don't feel funny in Welsh – my dream would be to do stand-up in Welsh."

Well – Kiri is about to get her chance – a stand-up session on the stage of the Wellman's in Llangefni for S4C Comedy. And there is an old friend and familiar face in the audience to offer some encouragement.

And Maggi has a word or two of advice for Kiri before she ventures on stage – "go big or go home!"

Will Kiri cope with the nerves and realise her dream of performing stand-up in Welsh? All will be revealed on **Iaith ar Daith**, Sunday, 4 April on S4C.

As well as the Wellman's in Llangefni, Kiri and Maggi visit several places on Anglesey including Red Wharf Bay, where Kiri learns more about the history of Land Rover and Llanddwyn Island. The journey comes to an end in Melin Llynnon, Llanddeusant where the two enjoy a well-deserved gin and tonic and slice of vegan cake.

Catch up with other programmes in the **Iaith ar Daith** series with Steve Backshall and Iolo Williams; the actor Rakie Ayola and her mentor Eiry Thomas; James Hook and Nigel Owens and Chris Coleman and Owain Tudur Jones on S4C Clic.

Iaith ar Daith
Sunday 4 April 8.00, S4C
English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Boom Cymru production for S4C